



15/3/22

Annwyl Riant / Gofalwr

### Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwiwnlys Addysg (ADY TA 2018)

Mae'r agwedd at gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau gyda dysgu yn newid. Mae Llywodraeth Cymru wedi pasio deddfwriaeth newydd, o'r enw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) ('y Ddeddf'), a gefnogir gan y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ('Cod'). Bydd y Ddeddf a'r Cod yn cymryd lle'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol am anghenion addysg arbennig. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno system fwy hyblyg ac ymatebol i ateb anghenion plant a phobl ifanc gydag anghenion addysgol arbennig neu anabledau, ac yn ymdrechu i gyflwyno system addysg hollol gynhwysol i ddysgwyr Cymru.

Bydd y system newydd yn sicrhau'r canlynol:

- fod anghenion yn cael eu hadnabod yn gynnar, ymdrin â hwy yn sydyn a bod yr holl ddysgwyr yn cael eu cefnogi i gyrraedd eu potensial
- fod gweithwyr proffesiynol yn meddu ar sgiliau a hyder i adnabod anghenion a defnyddio strategaethau i helpu dysgwyr i oresgyn eu rhwystrau i ddysgu.
- mai'r dysgwr sydd wrth galon popeth a wnawn a'u bod hwy a'u rhieni a'u gofalwyr yn bartneriaid cyfartal yn eu dysgu (Agwedd sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn)

O Fedi 1, 2021 caiff y system Anghenion Dysgu Ychwanegol ('ADY') a osodir allan yn y Ddeddf ei gweithredu'n llawn dros flynyddoedd ysgol 2021/22, 2022/23 a 2023/24. Bydd Awdurdodau Lleol, Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion ('UCD') yn symud plant sy'n disgyn i'r blynyddoedd mandedig, o'r system Anghenion Addysgol Arbennig ('AAA') i'r system ADY yn ystod cyfnod gweithredu o dair blynedd fel a ganlyn:

- Tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf, blwyddyn ysgol 2021/22: Meithrin 1, Meithrin 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7, Blwyddyn 10
- Blwyddyn ysgol 2022-23: Meithrin 1, Meithrin 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 5, Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10.
- Blwyddyn ysgol 2023-24: Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8 ac unrhyw ddisgyblion eraill gydag AAA ar 1 Ionawr 2022 na symudodd i'r system ADY yn ystod blynyddoedd un a dau y gweithredu.

Dyma rai o'r negeseuon allweddol am y newidiadau a'r hyn y gallant olygu i chi a'ch plentyn.

- Mae'r system raddedig gyfredol o Flynyddoedd Cynnar / Gweithredu Ysgol, Blynyddoedd Cynnar / Gweithredu Ysgol a Mwy a Datganiadau yn cael ei disodli dros y 3 blynedd nesaf. Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc gydag ADY a nodwyd sy'n



- gofyn am Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDY) yn ystyr y Ddeddf, Gynllun Datblygu Unigol (CDU). Bydd y CDU yn cymryd lle pob cynllun unigol arall. Bydd CDU i blant dan oedran ysgol gorfodol, sydd eu hangen, h.y., yn y blynyddoedd cynnar, yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol.
- Bydd y rhan fwyaf o CDU yn cael eu cynnal gan yr ysgol, ond lle'r ystyrir yn afresymol i'r ysgol wneud hynny, gall yr Awdurdod Lleol eu cynnal.
- Mae'r Ddeddf yn disgwyl y bydd yr holl bartneriaid megis Addysg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithio ar y cyd i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY.
- Bydd mwy o gyfle i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalmwr gyfrannu at greu a chynnal CDU trwy Gynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.
- Disgwylir y dylai cydweithio'n agosach arwain at osgoi anghytundebau.
- Cymerir pob cam rhesymol i sicrhau y bydd darpariaeth dysgu ychwanegol ar gael yn Gymraeg os bydd angen

### Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd yr agwedd at weithredu yn ystod blwyddyn ysgol 2021/22 yn ddilyniannol, gyda'r system ADY yn cychwyn i grwpiau penodol o blant ar 1 Medi 2021 ac ar 1 Ionawr 2022. Yn ystod gweithredu, bydd y system ADY yn rhedeg ar y cyd â'r system AAA, a fydd yn dirwyn i ben yn raddol yn ystod y cyfnod gweithredu.

O 1 Ionawr 2022, bydd y system ADY yn cychwyn ar gyfer plant sy'n mynychu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys UCD) ym Mlynnyddoedd Meithrin 1 a 2 (M1 a M2) a Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10 sydd â darpariaeth addysgol arbennig trwy weithredu blynyddoedd cynnar / gweithredu blynyddoedd cynnar a mwy neu weithredu ysgol / gweithredu ysgol a mwy. Bydd ysgolion ac UCD yn gwneud penderfyniad ynghylch a oes gan blant sy'n dod i unrhyw rai o'r blynyddoedd mandedig hyn ADY yn ystyr y Ddeddf. Wedi penderfynu a oes gan blentyn ADY neu beidio yn ystyr y Ddeddf, bydd yr ysgol neu'r UCD yn cyhoeddi 'hysbysiad CDU' neu 'hysbysiad dim CDU'. Yr hysbysiad CDU, neu'r hysbysiad dim CDU, sy'n symud plentyn o system AAA i'r system ADY.

Ar unrhyw bwynt yn ystod y tair blynedd o weithredu, o 1 Ionawr 2022 ymlaen, gallwch chi neu eich plentyn ofyn am symud i'r system ADY yn gynt nag y cynlluniwyd gan yr Awdurdod Lleol, yr ysgol neu'r UCD. Gellir gwneud hyn trwy ofyn am i hysbysiad CDU gael ei gyhoeddi.

Os hoffech unrhyw wybodaeth neu gyngor ychwanegol, cysylltwch â Chydlynedd ADY eich plentyn; neu cysylltwch â SNAP Cymru sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth am ddim i rieni trwy ymweld â: [www.snapcymru.org](http://www.snapcymru.org) neu galwch eu llinell gymorth ar: 0808 801 0608. Cofiwch hefyd y gall eich Awdurdod Lleol hefyd roi unrhyw gyngor neu gefnogaeth yn ôl y galw.

Yr eiddoch yn gywir

Mrs Sockett